

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Nos Fercher, 1af Hydref 2025

Presennol

Cynghorwyr – R Ashton (Cadeirydd), B Jones (Is-Cadeirydd), D Jones, I Edwards, F Cauley, G Davies, S Evans, E Davies, E Lewis a G Mitchell (Powys)

Ymddiheuriadau - P Jones

Cynnigiodd y Cadeirydd, R Ashton croeso cynnes i bawb.

Cyflwyniadau – Nick Venti (PAVO) i amlinelli'r broses o cychwyn ar cais am fuddsoddiant o faint sylweddol

Datganiadau diddordeb –

Cytuno Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol ar 3ydd Medi ac hefyd y rhai o'r Cyfarfod Cyhoeddus ar y 23ain Medi 2025

Pawb yn gytun

Materion yn codi

1. Cyfleusterau cyhoeddus - Mae Hafren Dyfrdwy yn mynd i drwsio neu newid y meter gan nad ydy'n recordio defnydd y dŵr. Dydy'r Cyngor heb cael bil ganddynt am y cynnod diweddaraf.
2. Gwifren BT wedi disgyn wrth y Wig – Mae Open Reach wedi symud y gwifren
3. Coed yn gwyro dros y ffordd yn Llan – Mae gwaith tyny'r coed allan wedi ei wneud gan contractwyr
4. Nawdd Windfall – Arhoswyd am cychwyn y gwaith cyfreithlon i paratoi cytundeb ffurfiol efo'r tîrfeddiannwr
5. Grŵp casglu sbwriel – Bydd y digwyddiad nesaf at y 11fed o Hydref ac Emyr Lewis yn gwenud cyflwyniad wedyn am bywyd yr afonydd
6. Safle Network Rail yn Nhalerddig – Gwaith clirio ar y gweill ond dydy'r gwaith ddim wedi ei cwblhau yn llwyr eto – dim diweddariad
7. Cyfrifion terfynol a'r awdit llawn – Mae'r Awdit Cymru wedi danfon adroddiad ar y cyfrifion gyda rhai amodau ac argymhellion. Y Clerc i ofyn am fwy o eglurhad am rhai o'r sylwadau cyn eu gyhoeddi
8. Adroddiad bioamrywiaeth – S Reast a F Cauley i orffen y tasg cyn mis Rhagfyr
9. Baw/cerdded cŵn – Cafwyd cyfarfod cyhoeddus ar 23ain Medi i drafod defnydd y cae mawr yn cynnwys lle ar wahan i cŵn. Clerc i cyhoeddi'r cofnodion
10. Parcio ar y cae mawr a cyflenwad cerrig – I Edwards i edrych allan am cyfle i gasglu cerrig dros ben i'w ddefnyddio ar y cae. Cynigwyd gofyn i'r asiantaethau ffyrdd am gerrig dros dro hefyd – dim diweddariad
11. Glanhau lloches bws Talerddig – Diolch yn fawr i Eilyr Jones am wneud y gwaith
12. Adroddiad gan Powys ynglyn a'r stafell snwcer – Mae yna gynllyn ar y gweill i rhoi gorchudd newydd ar lawr. Cyflwynwyd dynbris gan R Ashton a cadarnhawyd fydd y clwb yn talu am cyfran ohonno ac yn gwneud cais i'r Cronfa Fferm Wynt am rhan hefyd.

13. Defnydd o iard y Cyngor – Cynigwyd gwneud cais am brynu a datblygu'r iard er fudd y gymuned ac hefyd ail ystyried y posibiliad o cael gorsaf trên yna eto. Ystyrwyd cyflwyniad Nick Venti yng nghydestun y mater
14. Golau stryd wrth troiad Llanerfyl ar yr A470 ar gyfer plant yn dychwelid o'r ysgol fin nôs – Clerc i fynd yn ôl at y rhai a mynychodd y cyfarfod ar y safle Tachwedd 2024 i'w atgoffa o'r gweithredoedd a cytynwyd
15. Gorchudd cylfenwad dŵr yn Llan – Mae'r gorchudd yn iawn ar hyn o bryd, cytynwyd i'w monitro
16. Cyfarfod gyda Biosffer Dyfi ynglyn a profi dŵr ac arolwg Gwenoliaid Duon – Mae canlyniadau'r arolwg hyd yn hyn yn dangos fod gosod bocsys i'r Gwenoliaid yn weithgaredd llwyddianus a fod y dŵr yn weddol lân er yn rhy asidic. Mae Dŵr Cymru yn mynd i osod sgrîn newydd yn rhan o'r gwaith trin dŵr yn Nhafolwern
17. Cynnal llwybrau cyhoeddus – Mae Cyngor Sir Powys yn gobeithio hybu gwirfoddolwyr lleol i wneud gwaith cynnal a chadw ar y llwybrau. Disgrifwyd engrhaifft o trafodaeth rhwng F Cauley a'r tîm llwybrau yn dangos rhwystrau ymarferol sydd yn y atal cydweithrediad. Gofynwyd i G Mitchell adrodd y rhwystredigaethau yn ôl i Powys. Clerc i roi sylw i'r llwybr rhwng Llan a Bont
18. Tail yn blocio hen ffordd Pant Glas i pont Bel – I Edwards i tynu lluniau
19. Arolygu trefniadau rhwng y Cyngor a Claerwen yn Bont – S Reast wedi gwneud ymholiadau gyda'r cyfreithiwr
20. 'Container' ar y cae mawr – Diolch i Pwyllgor y Sioe am symud y 'container' er mwyn lleihau'r effaith weledol ar trigolion Maes yr Efail. Fydd angen rhoi ystyriaeth i'w ailbeintio a/neu plannu sietyn o'i flaen
21. Sietyn yn Llan – Clerc i ysgrifennu at perchnogion Ael y Bryn i ofyn os mae nhw neu Powys sydd berchen ar y sietyn
22. Etholiadau 2026 – Y Clerc i ofyn am eglurhad o sut fydd yr etholiadau yn effeithio ar Cyngor y Cymuned
23. Ffair y Ganolfan – Fydd y ffair yn cael ei cynnal ar nos Wener y 17eg o Hydref ac fydd angen i'r Cynghowrwr cynnal stondin boteli. Fydd yna Rhost Mochyn ac Ocsiwn i'w ddilyn ond rhaid pynu tocynnau ar ei chyfer
24. Llifogydd ym Maes yr Efail – Mae'r tîm draenio Powys yn gweithio ar y problemau ac mae G Mitchell yn cydlynu gwelliannau
25. Cyfngiadau cyflymder traffig rhwng Llan a croesfan Bont – Bydd y darn yma o'r ffordd yn mynd yn ôl i 30mya
26. Ffens yn Bont ar tir Dŵr Cymru – Clerc i ofyn eto iddo cael ei drwsio
27. Adeilad yn Badgers Glade wedi newid ei ddefnydd – Mae'r adeilad a fuodd yn bloc toiledau rwan yn cael ei defnyddio fel ty. Clerc i adrodd i Powys
28. Cyfngiadau 7.5 tunell ar ffordd Pandy yn Bont – Fuodd y cyfngiadau ar y ffordd yn ystod cyfnod cau y A470 ac wedyn cafwyd ei tynny o'na. Clerc i gwneud ymholiadau efo Powys i weld os gellir eu rhoi yn ôl neu o leia, arwydd yn dweud nad ydy'r ffordd yn addas i cerbydau mawr
29. Hysbysfwrdd ym Mhennant - Mae'r drysau yn cychwyn chwalu – F Cauley i edrych os oes modd eu drwsio'n hawdd
30. Cyffordd ar yr A470 – Mae'r Asiantaeth Cefnffyrdd wedi gwneud arolwg o cyflymder traffig ac ymddygiad cerddwyr wrth cyffwrdd A470 a'r B4518 ac wedi dod i'r canlyniad bod angen croesffan rhywle agos. Clerc i ofyn a fydd hyn yn gloygu gostyngiad yng nghyfyngiadau cyflemdar ar yr A470
31. Hyfforddiant – Mae S Evans yn mynd i gwneud hyfforddiant Cynllunio ar y 20fed o Hydref a B Jones yn gwneud Deallt y Gyfraith ar y 28ain o Hydref

Materion ffyrdd

CSP

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Cyflymder ceir trwy Bont, Llan, Talerddig a Llanbrynmair	le	Clerc i gwneud ymchwil am heddwes ffug/bwgan brain Mae GoSafe wedi gohirio hyfforddiant tra fod arolwg diogelwch ar y gweill. Cafwyd wybod bod yna trigolyn sydd wedi gwneud yr hyfforddiant yn barod – S Reast wedi gofyn am amserlen i'r arolwg ac ym unrhyw diweddariad arall
Tyllau ar y ffordd i Gelli		
Ffordd Cwmcalch	le	Wedi cael arwyneb newydd ar ôl i'r gwaith tyny coed allan gorffen

Asiant Cefnffyrdd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
A470		Disgwylir cadarnhad am arwyneb newydd i'r ffordd trwy Pont Bel
Dŵr ar y ffordd rhwng troiad Pentre Mawr a Gwern Bwlch		Asiantaeth Ffyrdd wedi gwneud Gwaith trwsio

Goleuadau stryd

Lleoliad	Adroddwyd	Nodiadau
Talerddig		Angen un wrth troiad i Llanerfyl

Adroddiad ar lafar gan Cyng Gary Mitchell (Cyngor Sir Powys)

- Mae'r cyfraniad tuag at y Cylch Meithrin allan o'r nawdd dewisol ar gael i Cyngorwyr Sir yn mynd yn ei flaen

Gohebiaeth

- Cyflwynwyd gwahoddiad i diweddariad ar brosiect Mwynglawdd Metel Dylife yn y Star yn Nylife ar y 15fed o Hydref

Cynllunio -

Cyfriflen a balans ariannol

Ar gael ar 26/09/25

Cyfrif Cyfredol	£7,552.18
Cyfrif Cadw	£2,996.91
Cyfanswm	£10,549.09
Sieciau heb eu cyflwyno	£0
Balans ar gael	£10,549.09

Ceisiadau a thaliadau ariannol

£	Eitem	Cyfanswm	Nodiadau
01/10/25	Cyflog y Clerc – Medi	£417.60	Cytynwyd
01/10/25	Treth ac NI ar cyflogau - Medi	£104.40	Cytynwyd

01/10/25	Mr R A Hughes – Gwasanaethau cyfieithu – Medi	£140.00	Cytynwyd
01/10/25	Joanna Whiteway – Glanhau'r toiledau - Medi	£210.00	Cytynwyd
01/10/25	E.ON Next – Medi	£30.23	Cytynwyd
01/10/25	Clear Capital - Yswiriant	£694.74	Wedi talu. Cytynwyd ar ebost 05/09/25 gan P Jones, E Davies, S Evans, F Cauley a R Ashton
01/10/25	Border Janitorial	£119.93	Cytynwyd
01/10/25	PHS – Dyletswydd Gofal Blynnyddol	£8.98	Cytynwyd

Unrhyw fater arall

Eitemau ar gyfer yr agenda nesa

- D Jones – Ffordd Pen Graig ac arwydd 'Preifat'
- G Davies – Pont Crugnant – Railings ddim digon hir
- I Edwards – Diweddariad ar Deffibrilwyr a Llywodraethwyr Ysgol Llanbrynmair
- E Davies – Beth yw statws y byngalow ar ffordd Bryneinty?
- E Davies – Drych wrth Ty'n Llwyn a troiad y Wern
- E Davies – Arwyddion traffig ffarm i Bont, Llan a Talerddig
- E Davies – Dŵr ar Pont Grin
- F Cauley – Arwydd i'r Fan Post

Cynhelir y Cyfarfod Cyffredinol canlynol ar Nos Fercher, 5ed mis Tachwedd 2025.

Sarah Reast, Clerc i Gyngor Cymuned Llanbrynmair